# Cofnodion cyfarfod rhif 96
# Pwyllgor Cynghori Cymru a gynhaliwyd yn Swyddfa Caerdydd ar 6 Mawrth 2025

**Yn bresennol**

Amanda Rees Aelod (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn)
Geraint Strello Aelod
Karen Lewis Aelod

**Hefyd yn bresennol**

Ruth McElroy Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Rachel Burr Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr

Phil Henfrey Cyfarwyddwr Cymru
Elinor Williams Ofcom Cymru
Ella Breeze Ofcom Cymru
Meleri Evans Ofcom Cymru
Rhys Llewelyn Ofcom Cymru
Beth Owen Ofcom Cymru
Ffion Hughes Ofcom Cymru

Jo Street Cyfarwyddwr Comisiynu Channel 4 ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau
Kevin Blacoe, Pennaeth Partneriaethau a Sgiliau Channel 4
Briony Robinson Arweinydd Materion Cyhoeddus Channel 4

| Eitem ar yr Agenda |
|---|
| **Croeso, cyflwyniadau, gwrthdaro rhwng buddiannau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 96 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Diolchodd pawb i AR am gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd.<br><br>Nodwyd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Aled Eurig, Clive Jones ac Angharad Evans. Nodwyd nad oedd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. |
| Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion cyfarfod rhif 95 a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2024. |
| **Y newyddion diweddaraf gan Aelodau**<br><br>Roedd yr Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom wedi dosbarthu papur diweddaru ymlaen llaw. Roedd yr Aelodau hefyd wedi nodi'r canlynol:<br><br>• Gofynnodd Aelod bod diweddariadau ar gyfnodau pan fydd toriadau pŵer a'u heffaith yn cael eu rhannu â'r pwyllgor yn rheolaidd, a bod pwysau yn parhau i gael ei roi ar gyflenwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd aelod fod hyn yn bwysig o ran cynnal enw da Ofcom yng Nghymru. Nodwyd y penderfyniad barnwrol ynghylch gwleidyddion yn ymddangos mewn rhaglen newyddion ynghyd â phryder y cyhoedd ynghylch penderfyniad y BBC yn ddiweddar i dynnu rhaglen ddogfen ar Gaza oddi ar ei |

iPlayer.

Dywedwyd fod Bwrdd Cynnwys Ofcom wedi trafod y cysyniad o ymddiriedaeth yn y newyddion yn ddiweddar. Roedd yn tynnu sylw at yr heriau sydd ynghlwm â rheoleiddio newyddion ac yn tanlinellu pwysigrwydd y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ran darparu newyddion dibynadwy.

**Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**

**Cyflwynodd Cyfarwyddwr Ofcom Cymru ei adroddiad ysgrifenedig, gan dynnu sylw at rai pwyntiau allweddol i'w nodi.**

- Nododd yr aelodau gyfarfod diweddar rhwng Prif Weithredwr Ofcom ac Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru. Byddai hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol ar lefel weinidogol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ynghylch y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac ymgynghoriad Ofcom ar ei ganllawiau ar amddiffyn menywod a merched ar-lein. Nodwyd fod pobl iau wedi bod yn rhan o ddau gyfarfod â rhanddeiliaid sydd wedi helpu'r tîm i gael dealltwriaeth well o brofiadau ar-lein yng nghyd-destun Cymru.
- Croesawyd penderfyniad diweddar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i gynnal cyfarfod diweddar y tu allan i Lundain yng Nghaerdydd. Nodwyd hefyd fod galwad fideo gyntaf y byd i'r gofod gan ddefnyddio ffôn clyfar 4G/5G safonol wedi digwydd yng Nghymru. Roedd timau sbectrwm Ofcom wedi chwarae rhan hollbwysig drwy'r drefn drwyddedu Arloesi a Threialu.
- Holodd aelod am y camau nesaf yn yr Adolygiad o'r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM). Nodwyd fod Ofcom Cymru yn gweithio gyda Cymru Greadigol i gynnull digwyddiad i'r diwydiant ym mis Ebrill er mwyn canolbwyntio ar atebion Cymreig i broblemau Cymru. Yn y drafodaeth oedd yn dilyn nodwyd mor bwysig oedd cystadleuaeth yng Nghymru a bod angen dewis eang o ran cyflenwad yng nghyd-destun Cymru. Holodd aelod a oedd gan y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yr atebion cywir o ran cyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y darlledwyr hynny.
- Tynnodd aelod sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn amlwg a'r heriau roedd curadu ar sail algorithmau yn eu creu ar lwyfannau oedd yn ffafrio cynnwys Saesneg.
- Tynnodd aelod sylw at bwysigrwydd sicrhau bod syniadau newydd a dulliau gweithredu newydd yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau oedd yn mynd rhagddynt ynghylch dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Tynnodd aelod sylw at bwysigrwydd herio adeiladol ac ymdeimlad o frys yng nghyswllt mynd i'r afael â chynaliadwyedd newyddion gwasanaeth cyhoeddus a'i effaith ar ddemocratiaeth yng Nghymru.

Nodwyd mor bwysig oedd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, yn enwedig yng nghyswllt ei le yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Tynnodd aelod sylw at mor bwysig oedd sicrhau bod pawb yn gallu ymgysylltu â'r cyfryngau ac offer digidol. Tynnodd aelod sylw at bwysigrwydd cynnwys academyddion ac ymchwilwyr mewn trafodaethau ar effeithiau posibl y cyfryngau cymdeithasol ac i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'r materion cysylltiedig.

**Polisi Cyhoeddus**

Nododd cydweithiwr o Ofcom rai pwyntiau allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Diddordeb y Senedd: Mae gan y Senedd gryn ddiddordeb o hyd yng ngwaith Ofcom.

Cafwyd digwyddiad galw heibio llwyddiannus i AS a'u timau yn ddiweddar, gyda llawer o AS newydd o Gymru yn dangos diddordeb mawr. Nodwyd bod Ofcom yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Gweinidog Gwladol dros Ddiogelu Data a Thelegyfathrebiadau

- Twf a Rheoleiddio: Mae Ofcom yn canolbwyntio ar ddangos sut mae rheoleiddio da yn gallu cefnogi twf economaidd ac arloesedd. Mae'r prif feysydd yn cynnwys buddsoddi mewn ffeibr, rheolau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a rheoli sbectrwm. Mae ymdrechion hefyd yn cael eu gwneud i ysgafnhau'r baich rheoleiddio o ran busnesau bach. Tynnodd aelod sylw at ymgysylltu â Media Cymru mewn perthynas â thwf economaidd ac arloesedd.

Nododd aelod ei bod yn bwysig bod y diwydiannau creadigol yn cael eu cydnabod fel un o'r wyth sector sy'n hybu twf a bod angen sicrhau bod y gwaith o reoleiddio Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) yn parhau i gefnogi'r twf hwn.

Rhoddodd cydweithwyr o Ofcom drosolwg o amserlen yr Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r ymatebion hyd yma. Yna gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r tîm a rhoi cyngor ar y canlynol:

- Cysylltu â chynulleidfaoedd: Yn ystod y drafodaeth, cydnabuwyd yr her sylweddol sydd ynghlwm ag ymgysylltu â phob cynulleidfa, yn enwedig y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Gwnaeth aelod y sylw bod angen i'r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) ddatblygu strategaethau ac ymyriadau cadarnhaol i gysylltu â'r grwpiau hyn, sy'n anghymesur o arwyddocaol yng Nghymru. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd mor bwysig oedd darparu newyddion dibynadwy a chywir. Tynnodd aelod sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd yng Nghymru drwy sicrhau bod cynnwys newyddion yn hawdd cael gafael arno, yn ddeniadol ac yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys dal llunwyr polisïau i gyfrif a gwneud cynnwys newyddion sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Deall 'Ymddiriedaeth': Cafwyd trafodaeth ynghylch beth yw ystyr y gair 'ymddiriedaeth' yng nghyd-destun newyddion. Nodwyd fod pobl sy'n cael gafael ar newyddion drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i ymddiried llai yn y newyddion.

- Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod rhai genres penodol o gynnwys nad ydynt yn gynnwys newyddion, ac yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â storïau a sefyllfaoedd go iawn yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mewn perygl o beidio â chael eu comisiynu. Ymhlith y rhain mae cynnwys ffeithiol arbenigol, sy'n hanfodol o ran cynrychiolaeth yng Nghymru.
- Nododd aelod yr her sydd ynghlwm â sicrhau amlygrwydd i gynnwys Cymraeg a goresgyn yr her o algorithmau sy'n ffafrio cynnwys heb fod yn yr iaith Gymraeg.
- Nododd aelod bod diffyg asesiad cynhwysfawr o'r anghenion yng Nghymru o ran sgiliau digidol. Er bod enghreifftiau o arferion da ar gael, mae angen dull mwy cydlynol i fynd i'r afael â'r bylchau a gwella hyfforddiant ym maes sgiliau digidol.
- Tynnodd aelod sylw at yr angen i arbrofi â chynnwys i blant ac i fod yn arloesol ac yn entrepreneuraidd o ran ein dull gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ystyried lansiadau digidol yn gyntaf a'u cyfrif yn erbyn cwotâu.

Awgrymodd aelod bod angen meddwl a chynllunio mewn ffordd strategol i sicrhau bod Cymru yn cael dweud ei dweud yng nghyd-destun ehangach y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, o gofio y bydd etholiad y Senedd yn cael ei chynnal ym mis Mai 2026.

**Diweddariad – Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys**

- Cafwyd trafodaeth ynghylch gallu darlledwyr llai yn y DU fel S4C i fod yn arloesol ac i

arddangos arferion da i'r DU ehangach ym maes cynnwys i blant er enghraifft.

- Nododd y pwyllgor fod y gronfa cynnwys i blant wedi hwyluso arbrofi ac arloesi wrth greu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc. Roedd y gronfa hon yn caniatáu datblygu talent a chreu cynnwys na fyddai, efallai, wedi bod yn bosibl fel arall.
- Gwnaeth aelod o'r pwyllgor y sylw bod darparwyr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus llai, fel S4C, yn wynebu heriau wrth drafod telerau â sianeli ar-lein byd-eang. Mae gallu cael gafael ar ddadansoddeg data am gyrhaeddiad o ran cynulleidfaoedd a'r defnydd o gynnwys PSM ar lwyfannau digidol yn hanfodol. Heb yr wybodaeth hon, ni all darlledwyr lunio strategaethau effeithiol na gwella eu cynnwys.
- Nododd un aelod bod Cymru yn arddangos cydweithio rhwng Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor a chyrhaeddiad. Mae'r cytundeb fframwaith rhwng y BBC ac S4C yn enghraifft o gydweithio o'r fath, ond mae lle i wella ac i arloesi.

Awgrymodd aelod bod Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi bod yn araf deg yn datblygu eu strategaethau digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd ar lwyfannau newydd ac i barhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd.

**Cyflwyniad Gwledydd a Rhanbarthau Channel 4**

Yng nghyd-destun gofyniad trwydded newydd y sianel i gynhyrchu strategaeth gomisiynu ar gyfer Cymru, estynnodd y Cadeirydd groeso i dîm Channel 4. Rhoddodd y tîm gyflwyniad ar ddatblygiadau diweddar, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- y newid yn ymddygiad cynulleidfaoedd;
- y dirywiad mewn refeniw hysbysebu;
- lansio ei strategaeth gomisiynu newydd ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau
- ei strategaeth hyfforddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Diolchodd y Cadeirydd i dîm C4 am eu cyflwyniad a nododd y farn gyson gan randdeiliaid yng Nghymru a fynegwyd yn ystod y broses ail-drwyddedu ddiweddar. Gyda'r broses honno bellach wedi'i chwblhau, cododd y Pwyllgor sawl mater gyda C4, gan gynnwys y canlynol:

- Sgiliau yng Nghymru: Roedd y pwyllgor yn awyddus i ddeall pam fod Channel 4 yn credu nad oedd digon o sgiliau yng Nghymru i alluogi eu strategaeth ddigidol.
- Costau Comisiynu: Gofynnodd aelod am eglurhad ar gostau comisiynu rhaglenni yng Nghymru a gofynnodd a oedd tystiolaeth neu ddata penodol i ategu barn Channel 4 bod costau cynhyrchu yn uwch yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Strategaeth i Gymru: gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan Channel 4 strategaeth benodol ar gyfer Cymru, gan gynnwys amcanion penodol, dangosyddion perfformiad allweddol ac amserlenni cyflawni.
- Ymgysylltu â'r Sector: gofynnwyd i dîm Channel 4 beth oedd eu cynlluniau o ran gwella adborth ac ymgysylltiad â'r sector cynhyrchu yng Nghymru a sut byddai hynny'n cael ei gynnal i'r dyfodol.
- Cynrychiolaeth ac Ymgysylltiad â Chynulleidfaoedd: holwyd tîm Channel 4 am y mesurau a'r strategaethau penodol i sicrhau gwell cynrychiolaeth ar gyfer Cymru ar Channel 4 ac ymgysylltu gwell â chynulleidfaoedd yng Nghymru.

- Presenoldeb yng Nghymru: cododd y pwyllgor ei bryder ynghylch y diffyg o ran staff Channel 4 yng Nghymru, gan gwestiynu pam nad oedd unrhyw un o'i rolau y tu allan i Lundain wedi cael ei neilltuo i Gymru. Roedd arnynt eisiau deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn a'i oblygiadau o ran barn pobl ynghylch ymrwymiad Channel 4 i Gymru.

I grynhoi, nododd y Cadeirydd mor bwysig oedd hi fod gan Channel 4 strategaeth glir ar gyfer Cymru er mwyn cryfhau'r berthynas yng Nghymru, yn enwedig yn niffyg unrhyw bresenoldeb corfforol yma. Diolchodd y Cadeirydd i Channel 4 am sesiwn gadarnhaol ac adeiladol. Roedd y pwyllgor yn edrych ymlaen at gael clywed oddi wrth Channel 4 eto am eu cynnydd.

**Diwygio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Post**

Dosbarthodd cydweithwyr o Ofcom bapur yn rhoi crynodeb o'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr oedd ymwneud â chynigion i ddiwygio rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol.  Roedd y papur yn nodi'r pwyntiau canlynol:

Amlder Danfon Llythyrau Ail Ddosbarth: Roedd y cynnig yn awgrymu newid pa mor aml yr oedd llythyrau ail ddosbarth yn cael eu danfon o chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae'r newid hwn yn seiliedig ar ymchwil ddiweddar i anghenion defnyddwyr sy'n awgrymu bod y mwyafrif o bobl sy'n defnyddio'r post yn hapus gyda'r newid hwn. Byddai llythyrau dosbarth cyntaf yn parhau i gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos gyda danfon y diwrnod wedyn yn parhau i fod ar gael.

- Targedau Ansawdd Gwasanaeth: Mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau i'r targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer post dosbarth cyntaf a phost ail ddosbarth. Byddai'r prif dargedau ychydig yn is a byddai targedau post hwyr newydd yn cael eu cyflwyno.  Nod y newidiadau hyn yw adlewyrchu bod defnyddwyr y post yn ffafrio dibynadwyedd yn fwy na chyflymder danfon.
- Rhwymedigaeth Llythyrau Mynediad: Mae'r cynnig yn awgrymu newid y rhwymedigaeth llythyrau mynediad i gyd-fynd â'r model danfon bob yn eilddydd. Byddai'r newid hwn yn caniatáu i'r Post Brenhinol wireddu arbedion posibl.
- Mae'r ymgynghoriad i fod i ddod i ben ar 10 Ebrill a bydd datganiad yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau yn cael ei ryddhau yn yr haf.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r tîm am yr ymchwil a'u cynllun ymgysylltu ar gyfer Cymru.

- Holodd aelod am yr adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig. Nododd y tîm nad oedd unrhyw wahaniaethau o bwys wedi'u nodi yn yr ymchwil na'r ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru o'i gymharu â'r cyfartaledd yn y DU.   Ymgysylltu yng Nghymru: Gofynnwyd i'r tîm am ymdrechion ymgysylltu penodol yng Nghymru. Dywedodd y tîm eu bod yn estyn allan at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys GIG Cymru a chyrff defnyddwyr, a'u bod yn croesawu awgrymiadau pellach o ran ymgysylltu.

I gloi, cafwyd trafodaeth ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil a phwysigrwydd ystyried y gwahaniaethau cynnil o ran mynediad i'r Rhyngrwyd a'r defnydd ohoni ymysg grwpiau gwahanol.

**Diweddariad yr Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**

Ymwelodd y Panel â Chymru ym mis Chwefror, gan roi cyfle i glywed gan Gomisiynydd y

Gymraeg, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r tîm cynhwysiant digidol yn Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd bod yr ymweliad wedi bod yn hynod o fuddiol. Hefyd, nodwyd y canlynol:

- Pryderon ynghylch y Newid Un Cam: Cododd y panel bryderon ynghylch uno data cyfeiriadau, sy'n effeithio ar y gwasanaeth Newid Un Cam. Mae problemau'n codi pan nad yw data cyfeiriad yn cyfateb yn iawn, gan effeithio ar y bobl hynny sydd heb gyfeiriad parhaol neu'r rheini sy'n symud yn aml. Trafododd y panel yr angen i adnabod y defnyddwyr y mae hyn yn effeithio fwyaf arnynt ynghyd ag atebion posibl.

Diffodd 2G/3G: Mae nifer y cwynion sy'n ymwneud â diffodd 2G/3G wedi bod yn isel yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen deall profiadau'r rheini y mae hyn wedi effeithio arnynt ac a ydynt yn rhoi gwybod yn rhagweithiol am broblemau. Mae'r panel mewn cysylltiad â sefydliadau fel y Comisiynydd Pobl Hŷn a Cyngor ar Bopeth er mwyn casglu rhagor o wybodaeth.

- Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm: Bu'r panel yn trafod rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm yr oedd y PSA yn eu rheoleiddio cyn hyn. Mae cryn ddiddordeb yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y pwnc hwn.

Yn ystod y drafodaeth oedd yn dilyn tynnwyd sylw aelodau at y ffaith y byddai Ofcom yn ymgynghori ynghylch y ddarpariaeth o newyddion lleol mewn gwasanaethau radio. Nododd aelod ei bod yn bwysig cael mwy o eglurder ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, a sut mae'r diffiniadau hyn yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

Nododd yr aelodau effaith strategaeth Global ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau a gyhoeddwyd yn ddiweddar a goblygiadau'r strategaeth honno i gynulleidfaoedd Cymraeg. Cododd aelodau bryderon ynghylch yr effeithiau negyddol posibl a bod angen canfod atebion creadigol i lenwi'r bwlch y bydd Global yn ei adael yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd modelau cyllido cynaliadwy ar gyfer cynnwys Cymraeg.

DPA Channel 4: Nododd y panel bod dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) Channel 4 yn canolbwyntio'n bennaf ar fetrigau perfformiad. Mae hyn yn adlewyrchu angen Channel 4 i brofi ei hyfywedd masnachol. Tynnodd yr aelod sylw at bwysigrwydd cydbwyso llwyddiant masnachol â rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus.

Bu'r aelodau'n trafod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, gydag aelodau yn cael rhybudd ymlaen llaw.

**Cadernid a RAN Symudol - Diweddariad**

Rhoddodd cydweithiwr o Ofcom y newyddion diweddaraf am Ddatganiad Ofcom ar Gadernid y Rhwydwaith Symudol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 yn dilyn cais am fewnbwn. Roedd yr adroddiad yn nodi na all un sefydliad neu sector ddatrys y mater o gadernid y rhwydwaith symudol ar ei ben ei hun, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau pŵer. Mae cryn dipyn o gyd-ddibyniaeth ar draws sectorau a rhanddeiliaid, ac mae angen dull gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Er bod batris wrth gefn yn gallu rhoi cadernid yn y tymor byr, nododd aelod nad ydynt yn ddigon mewn cyfnodau estynedig o doriadau pŵer fel rhai sy'n para am ddyddiau neu wythnosau. Roedd angen gwahaniaethu rhwng atebion byrdymor ac atebion hirdymor. Trafodwyd pwysigrwydd dod o hyd i atebion cymesur. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa mor

ymarferol fyddai cysylltu generaduron i safleoedd symudol a logisteg rhoi atebion o'r fath ar waith yn gyflym. Pwysleisiwyd bod angen dull gweithredu cytbwys sy'n ystyried y costau a'r effaith ar ddefnyddwyr fel ei gilydd.

Nododd aelod efallai y byddai angen i Ofcom ymyrryd a phennu disgwyliadau ar ddarparwyr symudol i ddarparu atebion cymesur ac effeithiol.

Cydnabuwyd natur ddeinamig yr amgylchedd, oherwydd dylanwad y newid yn yr hinsawdd, yn y drafodaeth a ddeilliodd o hyn. Pwysleisiwyd bod angen sgyrsiau parhaus a chynllunio at y dyfodol er mwyn addasu i amodau sy'n newid. Cynghorwyd Ofcom i ystyried sut i gynnwys y ffactorau hyn yn ei waith yn y dyfodol ac mewn cynigion polisi.

**Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch yr ymgynghoriadau oedd i ddod ar y ddarpariaeth o newyddion lleol fel rhan o

waith Ofcom yng nghyswllt gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau.

**Data cwynion ar gyfer Cymru**

- Nododd yr aelodau bod pob cwyn yn cael ei sianelu drwy dîm canolog, gan hwyluso cadw golwg ar y data. Mae'r dull canoledig hwn yn hwyluso dadansoddi ac adnabod patrymau yn effeithiol, er enghraifft, nifer o gwynion am yr un peth o wahanol rannau o'r wlad.

Mae cyhoeddi data ar gwynion yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu grymuso i wneud dewisiadau gwell. Mae tryloywder o'r fath hefyd yn ysgogi sefydliadau a chwmnïau i fynd i'r afael â materion o bwys a gwella eu gwasanaethau.

**Unrhyw Fater Arall**

Doedd dim mater arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Mawrth 10 Mehefin 2025. I ddilyn, mae cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher 1 Hydref a dydd Mawrth 9

Rhagfyr.